

Cofnodion Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd
Dydd Iau 28 Mehefin 2018, Swyddfa Safle Wylfa Newydd, Cemaes

Yn bresennol:

Dennis Evans, Cadeirydd y Grŵp Cyswllt
Wyn Thomas, Dirprwy Gadeirydd y Grŵp Cyswllt

Cadeirydd Cyngor Cymuned Rhosybol
Grŵp Llandrillo Menai

Horizon

Gwen Parry-Jones
Sasha Davies
Kieran Somers
Neil Burke
Daron Hodges
Danny Thomas
Delyth Owen
Richard Foxhall

Cyfarwyddwr Gweithredol - Datblygiadau Gweithredol
Pennaeth Datblygu Strategol Cymru
Rheolwr Cynllunio Technegol
Pennaeth Cynllunio a Chaniatadau
Rheolwr Safle Wylfa Newydd
Cydllynydd Datblygu Strategol Cymru
Swyddog Cynnwys y Gymuned
Rheolwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Rhanddeiliaid

Yn bresennol

Gareth Williams
Andrew Connolly
Iwan Williams
Geraint Hughes
Trevor Howes
Alwyn Rowlands MBE
Bethan Morris
Dr Claire Eno

National Grid
National Grid
Cyfoeth Naturiol Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Swyddog Cyswllt yr Adeilad Niwclear Newydd
Cyngor ar Bopeth – Ynys Môn
Swyddog Cynnwys y Gymuned, Cyngor Sir Ynys Môn
Cynrychiolydd Mandy Jones AC, Aelod Rhanbarthol y Cynulliad
Cenedlaethol dros Ogledd Cymru
Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Cwmni Cemaes Cyf / Ynni Talybolion
Magnox Ltd
Aelod o'r Cyhoedd
Ward Talybolion
Ward Talybolion
Aelod o'r Cyhoedd
Aelod o'r Cyhoedd
Ffederasiwn Busnesau Bach Ynys Môn
Ffederasiwn Sefydliad y Merched Ynys Môn
Cydllynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol
Grŵp Gweithredu Tregele
Grŵp Gweithredu Tregele

Dr Tom Conway

Eric Torr

Gafyn Jones

John Cadwaladr Jones

Y Cyng. John Griffith

Y Cyng. Kenneth P. Hughes

Mel O'Hara

Michael Dodds

Peter Day

Susan Scott

Tony Jones

Rhian Hayes

Kevin Barnet

Hefyd:

Aled Jones, Cyfieithydd – Cymen

Sydna Roberts, Cofnodydd – Cymen

Ymddiheuriadau:

Y Cyng. Richard Jones, Ward Twrcelyn

Greg Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithrediadau

Os nad yw eich enw, drwy ryw amryfusedd, wedi ei gynnwys ar y rhestr neu os yw wedi ei gofnodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu drwy anfon e-bost at wylfanewyddplgs@horizonnuclearpower.com

I gael gwybodaeth gyffredinol am y prosiect neu i ofyn unrhyw gwestiwn i Horizon, cysylltwch â'r tîm ar 0800 954 9516 neu drwy e-bostio ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com a mynd i www.horizonnuclearpower.com/hafan

1. Croeso, cofnodion cyfarfod mis Mawrth 2018 a materion yn codi

Croesawodd y Cadeirydd, Mr Dennis Evans, bawb i'r cyfarfod am 5.30pm, a nododd bod prosiect Wylfa Newydd bellach yn ei 10fed blwyddyn. Croesawodd Gwen Parry-Jones i'w chyfarfod cyntaf o Grŵp Cyswllt y Prosiect a chyfeiriodd at ei chyfoeth o wybodaeth a phrofiad yn y diwydiant niwclear.

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir - cynigiwyd gan Dr Tom Conway, gyda'r holl aelodau o blaid hynny.

2. Cyflwyniad gan Gwen Parry-Jones, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Niwclear

Diolchodd **Gwen Parry-Jones (GPJ)** i'r Cadeirydd am ei eiriau caredig o groeso, a rhoddodd grynodedb byr o'i gyrfa hyd yn hyn i bawb a oedd yn bresennol. Dywedodd ei bod hi wedi cael ei phenodi i swydd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Niwclear gyda Horizon ar gyfer Wylfa Newydd ar 4 Ebrill 2018, gan ddychwelyd adref i Ynys Môn ar ôl 24 mlynedd yn mireinio ei gyrfa yn y diwydiant niwclear, yn bennaf yn y maes gweithrediadau. Nododd ei bod wrth ei bodd ei bod hi'n ôl, gan ddweud ei bod yn fraith enfawr arwain prosiect Wylfa Newydd. Cydnabu GPJ fod y prosiect wedi profi cyfnod o 'stopio ac ailgychwyn' yn ystod y misoedd diwethaf; fodd bynnag, yn ystod y mis diwethaf, cymerwyd camau sylweddol i symud y prosiect ymlaen. Cyfeiriodd yn arbennig at y canlynol:-

- Y cais DCO a gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Gynllunio
- Ceisiadau am Drwydded Forol a Thrwyddedau Amgylcheddol a gyflwynwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru
- Datganiad Seneddol gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Greg Clarke AS
- Penodwyd Greg Evans yn Gyfarwyddwr Gweithredol y Gweithrediadau

Wrth gloi, dywedodd GPJ mai'r cam sylweddol nesaf yn y broses oedd sicrhau cyllid priodol - yr hyn a ddisgrifiodd fel 'sicrhau'r morgais'.

3 Cyflwyniad a'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Wylfa Newydd

Diolchodd **Sasha Davies (SD)** i bawb am eu presenoldeb ac am y cyfle i roi diweddariad ar ran Horizon. Nododd fod cynnydd y prosiect wedi cyflymu dros yr wythnosau diwethaf, a dymunodd y Cadeirydd gydnabod hyn, gan nodi ei fod yn hwb i hyder yn lleol. Fe wnaeth SD arwain pawb drwy'r cyflwyniad diweddar, gan dynnu sylw arbennig at y canlynol:-

Addysg

- Parhau â'r ymgysylltiad STEM mewn ysgolion cynradd yn Ynys Môn a Gwynedd
- Ers Ionawr 2018, ymwelwyd â 39 o ysgolion, gan gyfarfod â 950 o ddisgyblion
- Rhestr fer ar gyfer gwobr Celfyddydau a Busnes Cymru mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor am y rhaglen 'Profi'
- Noddi Ysgol Gyfun Llangefni, sydd wedi cyrraedd rownd derfynol y byd yn Singapore ar gyfer cystadleuaeth F1 mewn Ysgolion

Datblygu Sgiliau a'r Gadwyn Gyflenwi

- Ymwelodd prentisiaid y flwyddyn gyntaf (yr ail garfan) â Japan am bythefnos
- Bydd prentisiaid yr ail flwyddyn (y garfan gyntaf) yn cael hyfforddiant sgiliau gweithredol yng Ngorsaf Bŵer Niwclear Cofrentes yn Sbaen drwy Tecnom, sef partner hyfforddi Horizon
- Bydd y drydedd garfan o brentisiaid yn dechrau ar eu blwyddyn gyntaf gyda Horizon ym mis Medi 2018
- Bu tîm y safle mewn dau weithdy i helpu darpar gyflenwyr a chontractwyr i gael mynediad at gyfleoedd gyda'r Prosiect

- Ffurfiwyd partneriaeth â'r cynllun Mynediad at Waith, a chroesawyd Michael Gallagher i'r tîm yn ddiweddar

Cyfeiriodd SD at ddiwrnod cynefino i brentisiaid a gynhaliwyd yn gynharach heddiw. Cydnabu'r twf gwybodaeth cadarnhaol a nodwyd ym mhob carfan a'r datblygiadau sylweddol yn yr ardal hon ar yr Ynys.

Nodwyd hefyd fod hen Ganolfan Ymwelwyr Magnox Wylfa yn cael ei hailgyflunio ar hyn o bryd i gynnwys Canolfan Addysg / Gwybodaeth.

Yn y Gymuned

- Mae'r Cerbyd Cymunedol wedi cyrraedd y safle, a bydd yn mynd yma ac acw ar draws yr Ynys yn ystod yr wythnosau nesaf
- Cytunwyd ar nawdd pellach gyda Chymdeithas Amaethyddol Ynys Môn ar gyfer y prif bafiliwn ar faes Sioe Môn
- Yn mynd i Sioe Môn eto eleni - y 10fed flwyddyn yn olynol
- Hefyd yn mynd i Eisteddfod Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd fel un o'r prif noddwyr

Gweithgarwch ar y Safle

- Mae gwaith dargyfeirio ceblau NGET National Grid yn parhau
- Ymgwymerwyd â gweithgareddau cynnal a chadw ar draws y safle yn ddiweddar
- Mae'r Tîm Amgylcheddol wedi bod yn cymryd rhan yn '30 Days Wild' ac mae wedi bod yn cynnal arolygon safle derbynwyr fel rhan o'r gwaith hwn

Cwestiynau:

Gofynnodd **Dr Claire Eno (CE)** pa gymorth oedd ar gael i bobl ifanc o ymhellach i ffwrdd yng ngogledd Cymru a fyddai'n gorfod symud o'u cartref pe baen nhw'n llwyddiannus wrth wneud cais am brentisiaeth.

Cynigiodd **Wyn Thomas (WT)** sicrwydd bod myfyrwyr o bell ac agos yn cael eu cefnogi'n llawn wrth fynd ar gampws Coleg Menai, a bod mesurau ymarferol fel llwybrau bysiau 'wedi eu talu' ar draws y siroedd cyfagos yn cael eu hwyluso.

Cadarnhaodd **SD** fod trafodaethau parhaus gyda Grŵp Llandrillo Menai o ran nodi'r mathau o sgiliau adeiladu y bydd eu hangen ar gyfer prosiect Wylfa Newydd. Pwysleisiodd **WT** bwysigrwydd trosglwyddo'r neges hon i bob myfyriwr cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a bod cyfathrebu effeithiol ac effeithlon yn allweddol. Nododd **SD** fod gwaith yn mynd rhagddo ynglŷn â'r rhaglen Allgymorth ac Addysg sy'n ymestyn i Ysgolion Cynradd ac Uwchradd ac sy'n cynnwys myfyrwyr, athrawon a rhieni/gwarcheidwaid ar draws y 3 sir gyfagos, gan nodi mai'r prentisiaid eu hunain yw'r llysgenhadon gorau ar gyfer y cynlluniau hyfforddi.

Mynegodd **Dr Tom Conway TC)** siom, er gwaethaf y llinell amser adeiladu, mai dim ond 'siarad' a gafwyd ers 2009, a gwnaeth gymariaethau â phenderfyniadau a gwaith adeiladu ar gyfer gorsaf bŵer bresennol Wylfa yn y 1960au. Roedd hefyd o'r farn bod ymgysylltiad y Llywodraeth yn hynod amheus ac yn peri risg uchel iawn. Eglurodd **GPJ** y gwahaniaethau sylweddol o ran cynllunio a chyllid rhwng y 1960au a heddiw, dros 50 mlynedd yn ddiweddarach, a sut mae cynnwys y Llywodraeth yn helpu i yrru'r pris adeiladu i lawr.

Gofynnodd **WT** am esboniad o fanteision modiwlleiddio.

Eglurodd **Daron Hodges (DH)** fod gwaith adeiladu sylweddol ar strwythurau oddi ar y safle mewn cyflyrau dan reolaeth yn rhoi llawer mwy o reolaeth dros ansawdd. Gan fod angen llai o amser adeiladu ar y safle, wrth i'r darnau gyrraedd yn barod i'w gosod, byddai'r amser adeiladu cyffredinol yn sylweddol llai.

Croesawodd y **Cynghorydd Ken Hughes (KH)** y gostyngiad mewn risg adeiladu, ond nid oedd cefnogaeth y llywodraeth yn gwbl sicr. Gyda hyn mewn golwg, faint o waith fyddai Horizon yn parhau i'w wneud?

Dywedodd **GPJ** na fyddai'r amserlen waith yn newid tan y Penderfyniad Terfynol ar Fuddsoddi, ac y byddai cyhoeddiad ar y model cyllido yn cael ei wneud maes o law.

4 Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) a chaniatâd cynllunio, y sefyllfa ddiweddaraf -

Croesawyd **Kieran Somers (KS)**, y Rheolwr Cynllunio Technegol, i'r cyfarfod a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Nododd y canlynol:-

- Cyflwynwyd y cais Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ddydd Gwener 1 Mehefin.
- Mae'r cais DCO wedi ei rannu'n wyth cyfrol ac mae'n cynnwys 440 o ddogfennau a mwy na 41,000 o dudalennau. Dyma'r prif ganiatâd sydd ei angen i adeiladu Wylfa Newydd.
- Datblygwyd canllaw byr er mwyn deall y cais DCO yn llawn ac i esbonio ble mae dod o hyd i wybodaeth berthnasol.

Camau Nesaf yr Arolygiaeth Gynllunio

- Mae'r cais wedi cyrraedd
- Mae'r cyfnod cyn-archwilio wedi dechrau, a gall y cyhoedd gofrestru fel rhai sydd â diddordeb
- Yn dilyn hyn, cynhelir Cyfarfod Rhagarweiniol tua diwedd mis Hydref, o bosibl.
- Mae'r broses fel arfer yn cymryd 3-4 mis ac yna'n symud ymlaen i'r cyfnodau archwilio, argymhell a phenderfynu. Mae'r broses gyfan yn cymryd tua 17-18 mis fel arfer.

Ein camau nesaf

- Bydd cylchlythyr ar gyfer yr ynys gyfan yn cael ei gyhoeddi'n fuan, yn egluro beth sy'n digwydd nesaf ac yn hysbysebu'r cyfnod o fis i rai sydd â diddordeb mewn cofrestru
- Bydd pob crynodeb annhechnegol ar gael mewn llyfrgelloedd ar draws Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy
- Bydd copïau o'r holl ddogfennau cais ar gael ar wefan PINS, yng Nghanolfan Fusnes Môn ac yn Swyddfa Safle Wylfa Newydd

Yn ogystal, cyflwynwyd ceisiadau i Cyfoeth Naturiol Cymru am Drwydded Forol a thair trwydded amgylcheddol. Y trwyddedau amgylcheddol yw hylosgi, gollwng dŵr (adeiladu) a gollwng dŵr (gweithrediadau) - bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal ei ymgynghoriad ei hun ar y ceisiadau hyn.

Yn olaf, cyfeiriodd KS at y ceisiadau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref lleol.

Disgwylir i Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn ystyried y ceisiadau cynllunio ar gyfer gwaith Paratoi a Chlirio'r Safle naill ai ym mis Gorffennaf neu ym mis Medi, a'r cais cynllunio ar gyfer gwelliannau i ffordd yr A5025 ym mis Gorffennaf.

Holodd **Wyn Thomas (WT)** am ddyddiad dechrau/arfaethedig y gwaith ar yr A5025. Nododd y Cadeirydd y bydd y gwaith priffyrdd yn golygu lledaenu'r ffordd yn unig, ac atgoffodd **Richard Foxhall (RF)** yr aelodau mai contractwyr wedi eu penodi gan Gyngor Sir Ynys Môn fydd yn ymgymryd â'r gwaith. Dywedodd **SD**, o blith yr 11 o Gontractwyr Fframwaith a nodwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn, roedd 8 yn lleol neu wedi eu lleoli ar draws gogledd Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i Sasha Davies a Kieran Somers am yr wybodaeth a rannwyd.

5. Cyfoeth Naturiol Cymru - Ceisiadau am Drwyddedau Amgylcheddol gan Horizon, eu derbyn a'r cyfnod ymgynghori dilynol

Croesawyd **Iwan Williams (IW)** i'r cyfarfod, a rhoddodd drosolwg i'r aelodau o gyfranogiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn y broses DCO. Cyfeiriodd at y ceisiadau a gafwyd am Drwydded Forol a thair trwydded amgylcheddol: Hylosgi; Gollwng Dŵr (Adeiladu); a Gollwng Dŵr (Gweithrediadau).

Amlinellodd y broses ymgynghori fel a ganlyn:-

Cyfnod ymgynghori – 28.06.18 – 06.09.18

Digwyddiadau ymgynghori:

- | | | |
|----------------------|---------------|--|
| • 16 Gorffennaf 2018 | 13:00 – 18:30 | Storiel, Bangor, LL57 1DT |
| • 17 Gorffennaf 2018 | 13:00 – 18:30 | Neuadd David Hughes, Cemaes, LL67 0LW |
| • 18 Gorffennaf 2018 | 12:00 – 17:00 | Canolfan Ebeneser, Llangefni, LL77 7PN |

Nododd IW hefyd bod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael yn y lleoliadau a ganlyn:-

- Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd
- Gwefan Horizon
- Horizon, Swyddfa Safle Wylfa Newydd
- Swyddfeydd y Cyngor, Parc Busnes Llangefni, Llangefni.

Holodd **Dr Claire Eno (CE)** am yr effaith ar adar, ac yn benodol cytrefi gwenoliaid y môr, yn yr ardal. Dywedodd IW bod trafodaethau wedi bod yn parhau rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, Horizon, yr RSPB a chyrff perthnasol eraill am flynyddoedd lawer ynghylch effaith amgylcheddol. Cyfeiriodd **Neil Burke (NB)** at drafodaethau a gynhaliwyd heddiw ynglŷn ag atal unrhyw effaith bosibl ar y cytrefi gwenoliaid y môr, lle cytunwyd bod asesiad Horizon wedi dod i'r casgliad na fydd unrhyw effaith andwyol. Cydnabuwyd nad yw rhanddeiliaid allweddol yn cytuno â'r safbwynt honno, a bydd trafodaethau rhwng yr holl bartïon perthnasol yn parhau a bydd gwaith monitro ac adrodd yn digwydd yn rheolaidd. Holodd CE pa waith arolygu oedd wedi cael ei wneud, ac a yw Horizon yn dibynnu ar gyrff anlywodraethol am yr wybodaeth hon. Cydnabu NB waith wardeniaid Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (NWWT) ond dywedodd fod yn rhaid i Horizon ymgymryd â'i waith arolygu helaeth ei hun er mwyn ategu'r ceisiadau rheoleiddiol. Dywedodd fod ymdrech yr arolwg wedi ymestyn dros nifer o flynyddoedd.

Gofynnodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr National Grid ddarparu diweddariad ar Brosiect Cysylltiad Gogledd Cymru a diolchodd i Gareth Williams (GW) ac Andrew Connolly (AC) am ddod i'r cyfarfod.

Mae Andrew wedi gweithio ar sawl DCO ar ran National Grid. Soniodd fod y ffaith bod PINS wedyn derbyn cais DCO Horizon yn newyddion ardderchog, ond bod y gwaith caled yn parhau. Mae National Grid wrthi'n datblygu ei ddogfennau DCO ei hun i'w cyflwyno i PINS - gyda disgwyl iddo eu cyflwyno ym mis Medi. Yna bydd National Grid yn mynd drwy broses debyg i Horizon, ar gyfer y cysylltiad arfaethedig â Wylfa Newydd. Fel gyda Horizon, bydd PINS yn penderfynu pryd a sut i reoli'r gwahanol wrandawiadau sy'n gysylltiedig â'r cais.

Mae National Grid wedi cynnal astudiaeth ddichonoldeb gyda Llywodraeth Cymru i edrych ar y defnydd posibl o drydedd groesfan dros y Fenai i gario ceblau ar ei thraws i Bentir, a lofnodwyd ym mis Mai. Bydd hyn yn ystyried y dewisiadau arfaethedig ac yn ymchwilio i'r manteision a'r cyfyngiadau. Fodd bynnag, mae National Grid yn bwrw ymlaen ar hyn o bryd gyda'r gwaith o gyflwyno dogfennau yn seiliedig ar y dewis o gael twnnel o dan y Fenai.

Dyweddod y Cadeirydd fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ystyried y lleoliad dewisol ar gyfer trydedd pont dros y Fenai. Gofynnodd i National Grid a fyddai angen iddyn nhw gynnal dau gais DCO os oedd pwysau gan Lywodraeth Cymru i osod y ceblau ar draws y bont newydd. A fyddai hyn yn arwain at oedi? Gofynnodd **Dr Tom Conway (TC)** gwestiwn atodol pam nad oedd modd iddyn nhw osod y llinellau ar hyd y bont bresennol.

AC - Ar hyn o bryd nid yw National Grid yn gwybod beth fydd y lleoliad a gaiff ei ddewis ar gyfer y bont newydd arfaethedig. Pan fyddan nhw'n rhan o'r dewisiadau, bydd National Grid yn edrych arnyn nhw ac yn ymchwilio i'r hyn sy'n ymarferol o ran y strwythurau cebl presennol a newydd. Maen nhw'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried y dewisiadau a'r llwybr dewisol. Ar hyn o bryd, nid oes llinell 400k wedi cael ei gosod ar bont yn unrhyw le yn y byd.

O ran gosod y llinellau ar un o'r pontydd presennol, mae hynny'n fwy cymhleth nag y mae'n ymddangos. Mae gofynion penodol ynghylch y bwlch rhwng pob llinell gebl, mae anawsterau o ran mynd a dod at strwythur y bont a'r rhwydweithiau eraill sydd eisoes yn defnyddio'r pontydd. Ar hyn o bryd, ni fyddai'n bosibl gosod y llinellau ar y naill na'r llall o'r pontydd presennol.

Pwysleisiodd y **Cynghorydd Jon Griffith (JG)** pa mor bwysig oedd hi bod National Grid yn ymgynghori â'r awdurdod lleol, cyrff cyhoeddus eraill a'r cyhoedd yn gyffredinol. Dywedodd fod National Grid wedi gwrthod cyfarfod â'r Cyngor Sir presennol (a etholwyd tua 15 mis yn ôl). Bu cyfnod hir ers i National Grid gyfarfod ag aelodau etholedig - ac nid yw'r Cyngor Sir presennol wedi cael briff/diweddariad personol gan National Grid. Mae gwrthwynebiad ffyrnig yn parhau o ran y llinellau uwchben arfaethedig, gyda thuedd gref at roi'r ceblau dan y ddaear. A wnaiff National Grid drefnu Sesiwn Briffio gyda'r Cyngor newydd fel y gellir diweddarau'r Cynghorwyr?

Ymatebodd **Gareth Williams (GW)** o National Grid drwy dynnu sylw at y ffaith eu bod nhw wedi cynnal 60 o gyfarfodydd gyda Chyngor Sir Ynys Môn dros y 12 mis diwethaf. Maen nhw wedi cynnal dros 70 o ddiwyddiadau cyhoeddus ac wedi cael miloedd o ddarnau o adborth. Yn ogystal, maen nhw wedi cael dros 300 o dudalennau o adborth technegol manwl gan Gyngor Sir Ynys Môn. Roedden nhw o'r farn bod y gwaith ymgysylltu ar y prosiect hwn yn cyrraedd y safon aur yn y sector ynni. Mae'n amlwg bod anghytundeb ar y cynigion, ond rôl yr Arolygiaeth Gynllunio fydd penderfynu ar y camau gweithredu cywir.

6 Unrhyw Fater Arall

Mynegodd **Mr John Jones (JJ)** bryderon mawr nad oes digon o eglurder ac nad ydyn nhw'n ddigon agored â phobl sydd â buddiant mewn tir o gwmpas yr orsaf bŵer. Fodd bynnag, cyfaddefodd ei fod yn edrych ymlaen at drafod yr ofnau hyn mewn cyfarfod a drefnwyd ar gyfer y diwrnod canlynol (29 Mehefin) gyda Gwen Parry-Jones.

Gofynnodd **Mr Eric Torr** o Grŵp Hanes Bae Cemaes gwestiwn am y gweithrediadau archaeolegol presennol ar y safle. Soniodd fod ambell safle archaeolegol wedi cael ei ail-lenwi dros y misoedd diwethaf. O gofio am y cyfnod presennol o dywydd da, awgrymwyd y dylai Horizon gynnal Diwrnod Agored fel y gall y cyhoedd gael cyfle i weld y darganfyddiadau archaeolegol drostyn nhw eu hunain. A fyddai'n bosibl trefnu ymweliadau ar gyfer ysgolion cyn diwedd y tymor? Roedd yn gobeithio y bydd canolfan/arddangosfa yn y tymor hir i ddehongli darganfyddiadau, gydag adluniadau ac atgynhyrchiadau i roi hwb i dwristiaeth hanes Ynys Môn.

Ymatebodd **GPJ** drwy gytuno bod rhai darganfyddiadau diddorol iawn wedi dod i'r amlwg, ond yn ddiweddar mae gwaith archaeolegol wedi cael ei oedi er mwyn datblygu strategaeth hirdymor. Mae gan Horizon gyfrifoldeb statudol i ymgymryd â gwaith archaeolegol - ond mae hyn yn rhywbeth mae'r cwmni eisiau ei wneud o ddifrif beth bynnag. O ran rhaglen waith, mae tendrau wedi cael eu hysbysebu erbyn hyn i gytuno ar y gwaith archaeolegol sydd ei angen dros yr haf - gyda'r mwyafrif o'r gwaith hwn i'w gwblhau erbyn mis Hydref. Holodd GPJ am y ffordd orau y gallai

Horizon ymgysylltu â'r Gymdeithas Hanes i drefnu cyfres o deithiau/diwrnodau agored neu arddangosfeydd o'r arteffactau allweddol.

Gofynnodd **y Cynghorydd Ken Hughes (KH)**, o gofio bod 10 mlynedd wedi pasio ers dechrau'r gwaith ar brosiect Wylfa Newydd, ac nad yw'r gwaith adeiladu wedi ei gymeradwyo, a oedd cynlluniau cynhyrchu ynni amgen neu gystadleuol yn y Deyrnas Unedig pe na bai'r cais hwn yn llwyddiannus?

Ymatebodd **GPJ** drwy ddweud y rhagwelir y bydd y defnydd o ynni'n cynyddu'n sylweddol yn y dyfodol, gyda'r galw bron yn dyblu dros yr hanner can mlynedd nesaf. Mae angen cymysgedd cynhwysfawr o ynni os ydym am lwyddo. Pe na bai datblygiadau niwclear yn bwrw ymlaen, yna'r unig ddewis arall fyddai cynhyrchu nwy. Ond byddai defnyddio nwy yn achosi problemau ag anwadalrwydd pris - naill ai o ddwyrain Ewrop neu nwy siâl. Polisi cyfredol y Llywodraeth ar ynni yw bod niwclear yn darparu rhan o'r ateb ochr yn ochr ag ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, mae'r prosiectau niwclear hyn yn rhy fawr i fuddsoddwyr preifat yn unig, ac mae'n rhaid bod ganddyn nhw gefnogaeth gan y Llywodraeth.

Mae datblygiadau niwclear eraill ar y gweill. Hinkley Point C - gwnaed Penderfyniad Buddsoddi Terfynol 2 flynedd yn ôl. Mae'r Prosiect NuGen yn Cumbria hefyd, a chynlluniau ar gyfer Adweithyddion Modiwlaid Bach yn y tymor hwy. Ond mae'r rhain yn llawer pellach ar ei hôl hi o ran cynllunio. Mae yna hefyd ddau brosiect arall ar y gweill; Prosiect Sizewell C gan EDF yn Suffolk a'r cynnig o China ar gyfer Bradwell yn Essex, ond unwaith eto mae'r rhain y tu ôl i'r datblygiad yma yn Wylfa. Mae gan Horizon safle arall yn Oldbury, ac mae'r prosiect hwnnw y tu ôl i Wylfa Newydd o ran blaenoriaeth.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a chaeodd y cyfarfod am 7.40pm.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – Dydd Iau 20 Medi am 17:30

Ar gais rhai yn ystod y cyfarfod, mae'r ddolen i Geisiadau Horizon am Drwydded Forol; Trwydded Amgylcheddol Gollwng Dŵr Adeiladu; Trwydded Amgylcheddol Gollwng Dŵr Gweithredol; a Thrwydded Amgylcheddol Gweithgarwch Hylosgi Gweithredol, i'w chael fan hyn:

<https://www.horizonnuclearpower.com/ein-safleoedd/wylfa-newydd/dogfennau>